Ymgyrch Cewynnau Go Iawn

Clecs Cewynnau

Gorffennaf 2009

Yn y rhifyn hwn:

Cynlluniau Cymell Newydd i Awdurdodau Lleol
Gweithgareddau Wythnos Cewynnau Go Iawn ar hyd a lled y Wlad
Mwy o Wefannau 'Go Iawn' Awdurdodau Lleol!
Asiantau a Gwirfoddolwyr
Gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Fideo Ymgyrchu Cewynnau Go Iawn
Cysylltwch â ni

Cynlluniau Cymell Newydd i Awdurdodau Lleol ££££

Lansiodd 2 Awdurdod Lleol yng Nghymru Gynlluniau Cymell Cewynnau Go Iawn yn ystod Wythnos Cewynnau Go Iawn eleni. Lansiodd Powys gynllun lle bydd pob babi ym Mhowys yn derbyn cewyn a gorchudd cotwm am ddim. Mae'r rhain yn cael eu rhoi i'r rhieni yn ystod ymweliad 36 wythnos y fydwraig gan ddangos yr hyn y mae modd ei gyflawni trwy weithio'n dda mewn partneriaeth. Mae rhieni'n derbyn y cewyn a'r gorchudd ynghyd â Chyfeirlyfr Cewynnau Go Iawn Powys sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â sut i ddefnyddio cewynnau cotwm yn ogystal â manylion am gyflenwyr ac asiantau lleol a chenedlaethol. Gobeithir y bydd y cynllun hwn yn dangos i rieni sydd erioed wedi ystyried defnyddio cewynnau go iawn gymaint maen nhw wedi newid ers dyddiau'r sgwariau *terry* a golchi trwy ferwi ac mae'n bosibl y bydd yn gwneud iddyn nhw feddwl dwywaith cyn mynd ar ôl rhai tafladwy!

Caitlin, y gyntaf i dderbyn y pecyn cewynnau go iawn, gyda'i mam Joanne, y Fydwraig Sara Mcaleese a Heather Bull o Gyngor Sir Powys.

Mae Victoria White, Cyd-drefnydd Cewynnau Go Iawn Sir Benfro, wedi ailgyflwyno'r cynllun cymell cewynnau go iawn yn Sir Benfro hefyd. Mae hyn yn cynnwys cynllun arian-nôl lle gall rhieni hawlio hyd at £60 nôl os byddan nhw'n gwario £150 neu fwy ar gewynnau go iawn ac mae £30 o arian-nôl ar gael pan fyddan nhw'n gwario £50 neu fwy. Hybir y cynllun trwy Sir Benfro i gyd gan Vicky a chafwyd hysbyseb tudalen lawn mewn papur lleol yn ystod Wythnos Cewynnau Go Iawn. Meddai Vicky *"Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn bod yn weithgar yn y gymuned wrth hybu rhywbeth sy'n dda i'n babanod ni yn ogystal â'r amgylchedd".*

Ar ddiwedd wythnos Cewynnau Go Iawn lansiodd Cyngor Torfaen eu Cynllun Talebau Cewynnau Go Iawn lle gall rhieni Torfaen ofyn am daleb £30 tuag at gost prynu cewynnau go iawn. Anfonir pecyn Cymell Cewynnau Go Iawn at y rhieni sy'n cynnwys y daleb, taflenni'r 2 asiant cewynnau lleol, taflen Cymru Gynhaliol a thaflen Undeb Credyd Gateway i amlygu'r benthyciad cost isel gallan nhw ei gynnig. Mae'r pecynnau hyn yn cael eu postio at rieni sy'n ffonio'r Cyngor am gyngor cewynnau go iawn, yn cael eu dosbarthu mewn ymweliadau â chlinigau cyn-geni ynghyd â sgyrsiau eraill a gan yr asiantau lleol sy'n gweithio yn yr ardal.

Gweithgareddau Wythnos Cewynnau Go Iawn ar hyd a lled y Wlad

Da iawn i bawb wnaeth ymdrech arbennig i hybu cewynnau go iawn yn ystod Wythnos Cewynnau Go Iawn eleni. Roedd y gweithgareddau'n amrywio o lansio cynllun newydd i gymell cewynnau go iawn i redeg Nappuccino a helpon nhw i gyd i ledu'r gair am gewynnau golchadwy. Cynhaliwyd digwyddiadau yng Ngwynedd, Wrecsam, Powys, Sir Benfro, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Torfaen a Sir Fynwy. Meddai Rebecca Blout Swyddog Craff am Wastraff Sir Fynwy a aeth â'u bwrdd arddangos i Ysbyty Neville Hall a Neuadd y Sir yng Nghwmbrân *'Mae'n fater o atgoffa pobl fod dewisiadau ymarferol (a chŵl) eraill yn lle cewynnau tafladwy - weithiau rydych chi'n anghofio mai'r pethau syml sy'n gweithio orau'*, ac ychwanegodd *'cawsom ni ymateb cadarnhaol iawn nid yn unig gan famau sy'n disgwyl ond gan dadau a rhieni-cu hefyd. Cawson nhw eu synnu o weld y cynlluniau hardd newydd yn amrywio o gewynnau smotiau crynion i rai cuddliw sydd hefyd yn ddelfrydol fel anrhegion'.*

Mwy o Wefannau 'Go Iawn' Awdurdodau Lleol!

Mae gan fwy byth o awdurdodau lleol dudalen cewynnau go iawn benodol gan gynnwys Sir Benfro http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?Parent_Directory_id=107&nav=559,1504 a golwg newydd i Wrecsam <http://www.wrexham.gov.uk/english/env_services/community_services/real_nappies.htm> a Phowys <http://www.powys.gov.uk/index.php?id=5170> . Erbyn hyn, dim ond 3 awdurdod lleol sydd heb dudalen we benodol felly daliwch ati!

Asiantau a Gwirfoddolwyr

Mae gennym ni 3 asiant newydd yng Nghymru ers y Cylchlythyr diwethaf. Mae Natalie Copsey yn fam i ddau o Gwmbrân a ddefnyddiodd gewynnau tafladwy gyda'i phlentyn cyntaf ond a oedd yn methu â goddef taflu mwy o wastraff i'r bin pan gyrhaeddodd ei hail fab. Mae Natalie yn gweithio i'r cwmni cewynnau 'Fill Your Pants' ac mae'n fodlon rhoi cyngor i rieni yn ardaloedd Torfaen a Chasnewydd. Ar ben hynny, Natalie yw un o'r asiantau lleol a all gyfnewid y daleb £30 newydd oddi wrth Gyngor Torfaen a gellir cysylltu â hi ar 01633 869575, 07727 699437 neu yn nataliec2009@live.com <mailto:nataliec2009@live.com> www.fill-your-pants.com <http://www.fill-your-pants.com>

Hefyd, mae gennym ni 2 asiant Lollipop newydd sy'n byw yn Lloegr ond yn gallu rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni yng Ngogledd Powys gan gynnwys y Trallwng a'r Drenewydd. Gellir cysylltu â Vicky Darke ar 01743 244818 neu drwy e-bost yn Vicky@simplynappies.co.uk, www.simplynappies.co.uk. Gellir cysylltu â Suzanne Galliers ar 01691 610936 neu suzanne.galliers@btinternet.com www.teamlollipop.co.uk.

Gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol – Menter Ward Gyfeillgar i Gewynnau Go Iawn

Ar ôl yr holl waith da sy wedi'i wneud gyda'r Awdurdodau Lleol, mae cynlluniau ar y gweill i lansio cynllun cymell newydd fydd, yn ein tyb ni, yn helpu i hybu'r defnydd o gewynnau go iawn i rieni trwy'r GIG yng Nghymru. Bydd Ward Gyfeillgar i Gewynnau Go Iawn yn barod i roi gwybodaeth ar ddefnyddio cewynnau go iawn ynghyd ag egluro i rieni cyn yr enedigaeth fod y rhai sy'n bwriadu defnyddio cewynnau go iawn yn gallu defnyddio eu rhai eu hunain ar y ward yn ystod eu harhosiad. Unwaith mae'r adnoddau a'r cytundeb mewn lle i gefnogi defnyddwyr cewynnau go iawn ar y ward, yna gellir galw'r uned yn un sydd â statws Cyfeillgar i Gewynnau Go Iawn. Bydd gwybodaeth am ba wardiau mamolaeth neu ganolfannau geni sy'n Gyfeillgar i Gewynnau Go Iawn ar gael ar ein gwefan i rieni ei gwirio ac fe gysylltir â'r wasg leol. Cyn bo hir caiff llythyrau eu postio i bob ysbyty a chanolfan eni a bydd Sian yn cysylltu â phob rheolwr ward ym mis Gorffennaf i ofyn iddynt a hoffen nhw gymryd rhan. Felly galwn ar bob bydwraig i helpu trwy wynebu'r her a gwneud dewis cewynnau go iawn yn opsiwn hawdd i rieni!

Fideo Ymgyrchu Cewynnau Go Iawn

Nodyn bach i'ch atgoffa bod y fideo ymgyrchu dwyieithog gen i erbyn hyn mewn fformatau digidol gan gynnwys .mpg, .mov a .mp4. Os hoffech dderbyn unrhyw un o'r fideos digidol hyn i'w chwarae ar wefannau a.a. cysylltwch â Sian.

Cysylltwch â ni…

Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw beth sydd wedi cael ei drafod yn y cylchlythyr hwn, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni neu ymweld â'n gwefan. Os ydych chi wedi trefnu unrhyw ddigwyddiadau yn eich ardal chi, rhowch wybod i ni a byddwn ni'n eu hychwanegu i'r wefan.

www.realnappies-wales.org.uk

0845 456 2477

recycle for Wales
ailgylchu dros Gymru
www.wasteawarenesswales.org.uk

Sustainable Wales
Cymru Gynhaliol